Image not found or type unknown

# Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr am ffiniau proffesiynol

Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr sy’n nodi gwybodaeth bwysig am ffiniau proffesiynol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 11 Ionawr 2022

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/canllawiau-ymarfer-ar-gyfer-gweithwyr am y fersiwn diweddaraf.

**Mae gennym ganllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr sy’n nodi gwybodaeth bwysig am ffiniau proffesiynol:**

“Mae ansawdd eich perthynas gyda’r unigolyn yn bwysig iawn. Mae’n hanfodol creu amgylchedd cynnes, caredig a chyfeillgar. Weithiau, fodd bynnag, gall yr ‘agosatrwydd’ hwn bylu’r ffiniau proffesiynol a chreu anawsterau. Mae enghreifftiau’n cynnwys pethau fel rhannu gormod o wybodaeth bersonol neu ymgymryd â thasgau y tu allan i’ch rôl.

“Dylech weithio gyda’ch rheolwr i sicrhau’r canlynol:

- eich bod yn deall eich rôl broffesiynol a’ch terfynau
- eich bod yn deall a chadw at bolisi eich sefydliad ar ffiniau proffesiynol
- eich bod yn trafod unrhyw bosibilrwydd o groesi ffiniau proffesiynol.

“Rhaid i chi wneud yn siŵr bod eich holl weithredoedd gydag unigolion a theuluoedd yn gwbl agored i’w trafod gyda’ch rheolwr. Mae rhai pethau’n amlwg yn torri’r ffiniau derbyniol.

“Er nad yw’n rhestr gyflawn, mae pethau annerbyniol yn cynnwys:

- cael perthynas rywiol neu berthynas amhriodol arall gydag unigolyn
- defnyddio eich credoau personol, er enghraifft, credoau gwleidyddol, crefyddol neu foesol, mewn ffordd sy’n ecsbloetio neu’n achosi trallod
- benthyca gan unigolyn neu roi benthyg arian iddo
- gweithredu mewn unrhyw ffordd sy’n niweidio unigolyn.

“Nid yw cydsyniad yr unigolyn byth yn amddiffyniad i’r pethau hyn.”

Gallwch gael gafael ar fersiwn llawn o’r canllawiau ymarfer yma